

**Chwaraeon RhCT**  
**Telerau ac Amodau Cronfa'r Ysgolion**

1. Wrth gyflwyno cais mae ysgolion yn mynd i gytundeb â Chwaraeon RhCT mewn perthynas â'u prosiect arfaethedig.
2. Mae'n bosibl y bydd cais yn cael ei gefnogi yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol. Os yw cais yn cael ei gefnogi'n rhannol, bydd llythyr cynnig Chwaraeon RhCT yn amlinellu pa elfennau o'r cais sydd wedi'u cymeradwyo yn union.
3. Os yw'r cais yn cael ei gymeradwyo, bydd ysgolion yn derbyn llythyr cynnig gan Chwaraeon RhCT.
4. Mae'r arian grant sy'n cael ei gynnig i chi yn y llythyr oddi wrth Chwaraeon RhCT yn cael ei gynnig ar sail y Telerau ac Amodau yma a bydd rhaid i chi eu derbyn o fewn 28 diwrnod.
5. Rhaid ichi nodi eich bod yn derbyn y cynnig trwy arwyddo a dyddio'r ffurflen llythyr cynnig a'i dychwelyd i Chwaraeon RhCT. Dim ond pan fydd Chwaraeon RhCT yn derbyn y ffurflen wedi'i llofnodi y byddwn ni'n ystyried eich bod chi wedi derbyn y cynnig. Dydy Chwaraeon RhCT ddim yn caniatáu i chi dderbyn y cynnig gan ddefnyddio unrhyw ddull arall.
6. Os yw'r cais yn cael ei wrthod, bydd ysgolion yn derbyn llythyr gwrthod gan Chwaraeon RhCT gyda rheswm yn egluro pam nad yw'r cais wedi'i gefnogi. Dydy gwrthod cais ddim yn atal ysgolion rhag ymgeisio eto yn y dyfodol.
7. Unwaith y bydd cais grant llwyddiannus wedi'i dderbyn gan ysgol, bydd Chwaraeon RhCT yn trefnu prynu eitemau / gwasanaethau. Does dim modd i Chwaraeon RhCT ryddhau arian grant ar ffurf arian parod i ysgolion, felly yn lle hynny bydd Chwaraeon RhCT yn prynu'r eitemau / gwasanaethau sydd eu hangen ac yn eu cyflwyno i'r ysgol yn uniongyrchol.
8. Fydd Chwaraeon RhCT ddim yn cyfrannu rhagor o Arian Grant tuag at y Prosiect na'r uchafswm sy wedi'i nodi yn y Llythyr Cynnig.
9. Mae'r arian y mae Chwaraeon RhCT yn ei ddsbarthu fel grantiau yn cael ei dderbyn gan Chwaraeon Cymru, sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Loteri Genedlaethol.
10. Rhaid i'r Derbynydd:-
  - a. defnyddio'r Arian Grant at y diben sy wedi'i nodi yn y Llythyr Cynnig,
  - b. rhoi adroddiadau ar gynnydd y Prosiect pan fydd Chwaraeon RhCT yn gofyn amdanyn nhw o dro i dro, yn ogystal ag unrhyw adroddiadau o'r fath sy wedi'u nodi yn y Llythyr Cynnig;
  - c. monitro llwyddiant y Prosiect a darparu unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol i Chwaraeon RhCT i'n bodloni eich bod chi'n ymgymryd â'r Prosiect mewn ffordd addas ac yn unol â thelerau'r Llythyr Cynnig;
  - d. caniatáu i Chwaraeon RhCT gynnal ymweliadau monitro neu werthuso â'r Prosiect a bydd y Derbynydd yn cydweithredu'n llawn â Chwaraeon RhCT mewn perthynas â hynny;
  - e. sicrhau bod yr holl ofynion monitro ac adrodd sy'n weddill mewn perthynas â'r Prosiect wedi eu cyflawni cyn cyflwyno unrhyw gais am arian yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw brosiect arall. Fydd Chwaraeon RhCT ddim yn ystyried cais am grantiau yn y dyfodol os bydd unrhyw ofynion monitro neu adrodd heb eu cwblhau;
11. Yn ystod cyfnod y Prosiect bydd y Derbynydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chyfreithiau eraill, gan sicrhau iechyd a diogelwch, hyrwyddo cyfle cyfartal, atal gwahaniaethu o unrhyw fath a sicrhau diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed.